

## Comisiwn Eisteddfod T 2021 Urdd Gobaith Cymru

**CYFLWYNIAD THEATRIG ar gyfer Bl.7 a dan 19 oed**  
**Sgript yn addas i'w pherfformio ar Zoom.**

### **Y TÎM SIARAD CYHOEDDUS**

Awdur: Anni Llŷn

#### **SEFYLLFA:**

Mae pedwar cymeriad ac mae nhw'n cyfarfod ar Zoom er mwyn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Ar gyfer dibenion y gystadleuaeth mae nhw' wedi penodi pwy sydd o blaid, yn erbyn ac ar y ffens gyda phob pwnc.

#### **CYMERIADAU:**

EL: CADEIRYDD – Trio arwain yr ymarfer a'r drafodaeth.

CERI: O BLAID – Yn eitha *keen*, eisiau ymarfer.

DAN: YN ERBYN – Yn cymryd ei rôl i fod 'yn erbyn' o ddifri ac â'i ben yn y Geiriadur i geisio cael geirfa dda.

FLIX: AR Y FFENS – Does ganddo/i ddim llawer o ddiddordeb mewn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Wedi cael ei roi 'ar y ffens', er mewn gwirionedd mae ganddo/i farn ar bopeth ac yn alluog iawn wrth ddadlau pan mae angen!

**\*NODYN AM IAITH** – mae gennych hawl i addasu'r iaith yn ôl eich tafodiaith ac acenion eich cymeriadau.

\* \* \* \* \*

*Gwelwn bedair sgrîn mewn un.*

*Mae EL wrthi'n cael trefn ar ei nodiadau cyn dechrau'r ymarfer... yn union fel cadeirydd go iawn!!*

*Mae CERI yn aros yn eiddgar i bethau ddechrau. DAN a'i ben yn ei eiriadur a FLIX ar ei ffôn.*

EL: Reit... Annwyl gyfeillion a pharchus feirniad...

FLIX: *(Geb godi ei ben/phen o'i ffôn)* Be ydi "pharchus feirniad"?

EL: Be ti'n feddwl? Y beirniad y gystadleuaeth ynde... ma' beirniaid yn barchus, 'tydyn. Jysd ffordd o groesawu pawb i'r drafodaeth.

DAN: *(Gan godi ei ben o'r Geiriadur)* Dwi'n gwbl wrthwynebus i hyn.

CERI: I be? Tydan ni heb ddechra eto.

EL: *(Yn trio cario 'mlaen)* Annwyl gyfeillion a pharchus feirniad....

FLIX: Be fydd y pwnc 'ta?

CERI: Tydan ni ddim yn gwybd eto. Gad iddi gario 'mlaen.

EL: Mi fydd rhaid i ni baratoi dadl ar gyfer chwe phwnc ond dim ond tri fyddwn ni'n neud ar y dydd. Dwi wedi egluro hyn i ti'n barod. Ond beth bynnag fydd y pwnc, fydda i'n dechra fel hyn... "Annwyl gyfeillion a pharchus feirniad..."

DAN: *(Gan godi ei ben o'r Geiriadur)* Mae'r cyhuddiad yna yn gwbl ddi-sail.

CERI: O mam bach... oes rhaid i ti fod yn y Geiriadur 'na? Gawn ni ddechrau trafod un o'r pynciau plis?

EL: lawn... be am hwn... "Mae treulio gormod o amser ar sgrîn yn niweidiol i allu plant a phobl ifanc i ganolbwyntio."

FLIX: Wel mae hynna'n llond sach o rybish, 'tydi?

CERI: Hei... fi sydd fod i ddechra...

FLIX: Be ti'n feddwl?

CERI: 'Da ni fod i drafod... a fi sydd "o blaid" yr un yma, felly fi sy'n mynd gyntaf, a chdi sydd ar y ffens.

DAN: A dwi'n wrthun.

EL: *(yn ddiamynedd)* Reit, mae Ceri yn mynd yn gyntaf ac yn cytuno efo'r gosodiad. Wedyn dwi'n pasio'r drafodaeth ymlaen i un ohonoch chi efo rhyw fath o gwestiwn i herio be oedd yn cael ei ddweud o blaid.

DAN: Mae'n rhaid i mi anghytuno'n eithriadol...

CERI: *(Wedi ei gyfeirio at DAN)* Dwi'm yn meddwl fod hynna'n gwneud llawer o synnwyr, Dan.

FLIX: Ond fedra i ddim bod ar y ffens am hyn... dwi isho anghytuno'n ethriadol hefyd.

EL: Ond o'dd Mrs Huws yn deud ei bod hi'n syniad da i ni rannu'r drafodaeth fel hyn, pawb gael ei rôl, fel ein bod ni'n cael pob agwedd wrth drafod.

FLIX: Os wyt ti'n gofyn i fi, mae Mrs Huws yn dystiolaeth perffaith ei bod hi'n amlwg nad ydi gormod o "amser sgrîn" yn niweidiol, achos mae hi wedi rhoi llwyth o waith cartref ar y we ac rydan ni'n gorfod cael cyfarfod Teams bob dau funud!

DAN: Y mae'n anghyfiawn i ddadlau o blaid y fath beth.

*Mae rhywun o'r golwg yn dod i ystafell CERI i alw arni. Gwelwn hi'n ymateb i rhywun nad ydi'r gynulleidfa'n weld.*

CERI: Fydda i nôl rwan...

*Mae CERI yn gadael y sgrin.*

EL: Och... dani byth am gael ymarfer call.

*Mae DAN yn cau'r geiriadur. Mae FLIX yn dod yn nes at y sgrin.*

FLIX: Tra dani'n aros... ydach chi wedi gweld y sialens tynnu llun ar TikTok? Mae'n hilêriys.

DAN: O do... ond mae rhai yn anhygoel!

EL: Be 'di o?

FLIX: Ti'n gwisgo mwgwd ac yn amseru 20 eiliad ac yn trio tynnu llun ohona ti dy hun ar bapur.

DAN: Wedyn, ti fod i'w ddefnyddio fo fel llun proffeil ar y gwefannau cymdeithasol. Dwi'n meddwl ei fod o'n rhywfath o ymgyrch i dynnu sylw at bobl sy'n gweithio ym myd celf sydd wedi colli gwaith ers y pandemic.

EL: lawn, nawn ni o'n sydyn rwan...

*Mae'r tri yn cael gafael ar bapur a phensil sydd wrth law.*

DAN: 'S gen i ddim mwgwd....

FLIX: Rho dy law dros dy lygaid.

*Mae'r tri yn gwneud hyn.*

EL: Ar eich marciau, barod, ewch...

*Mae'r tri'n dechrau.*

FLIX: Oi... sna neb yn amseru...

EL: Diom ots, jysd cariwch ymlaen am rombach... nawn ni ddyfalu...

DAN: Oooo mae'n anoddach nac oni'n feddwl... lle dwi'n rhoi fy nhrwyn?

EL: Ar dy dalcen!

FLIX: Cofia bo ti angen digon o le i dy drwyn!

*Mae CERI yn dod nôl i eistedd. Tydi'r un o'r tri arall yn ei gweld. Mae'n amlwg ei bod newydd gael newyddion pryderus.*

DAN: Oi! Tydi nhrwyn i ddim mor fawr a hynna!

EL: Iawn... rhyw 5 eiliad bach...

FLIX: Dach'i'n gwneud corff neu jysd y pen?

EL: 3... 2... 1...

*Mae'r tri yn tynnu eu dwylo i lawr ac yn edrych ar eu lluniau eu hunain ac ymateb.*

*Yna mae nhw'n codi'r llun at eu camerau ac yn ymateb i'w gilydd drwy chwerthin.*

EL: Haha... sbiwch golwg!

FLIX: Mae dy drwyn di'n epig!

DAN: Be sydd gen ti ar dy ben?

EL: Gwallt de!!

*Tydi CERI ddim wir yn ymateb i ddim. Mae rhywbeth yn pwyso ar ei meddwl.*

FLIX: Rhaid i ti gael tro rwan Ceri...

*Mae EL yn sylweddoli fod rhywbeth o'i le ac nad ydi CERI yn iawn.*

EL: Ceri? Ti'n iawn? Be sydd wedi digwydd?

*Mae DAN a FLIX yn synhwyro fod rhywbeth o'i le hefyd ac mae'r awyrgylch yn newid yn llwyr.*

CERI: Ym... mae Dad wedi cael prawf positif.

*Does neb yn gwybod beth i'w ddweud.*